


Cyfarpar Lluniadu Orthograffig

Wrth luniadu, braslunio neu wneud unrhyw waith graffeg, mae yna gyfarpar hanfodol a ddylai fod wrth law er mwyn i chi allu cyflawni'r gwaith yn effeithiol.

Beth fydd angen arnoch chi - Cyfarpar Lluniadu Sylfaenol




Mae Pensiliau Lluniadu yn ofyniad sylfaenol mewn unrhyw gwrs graffeg. Mae angen rhif rhwng 2B i 2H arnoch chi. Mae'r llythrennau hyn yn cyfeirio at galedwch led y pensil. Wrth fraslunio, gallwch ddefnyddio led feddal megis 2B i greu lluniadau cyflym a chysgodion. Wrth luniadu yn fanwl, dylech ddefnyddio 2H neu bensil caletach fyth fel 4H. Mae'r math hwn o bensil yn cadw ei ymyl finiog yn hirach ac yn creu llinellau main iawn.



Mae pensil ail-lanwadwy hefyd yn ddefnyddiol iawn, yn enwedig os ydych chi'n gwneud lluniad ble mae angen i drwch y llinell fod yn gyson. Mae'r ail-lenwadau ar gael mewn mwy nag un trwch a gallwch gael led galed neu feddal. Yr anfantaision yw bod pensiliau ail-lanwadwy yn gymharol ddrud, felly hefyd yr ail-lenwadau. Hefyd, mae'r led yn tueddu i dorri'n haws.





Mae **cwmpas** yn gwbl angenrheidiol. Mae'n werth prynu set dda gydag o leiaf dau gwmpas sy'n gadael i chi luniadu cylchoedd mawr a bach. Cwmpas bwa yw'r gorau oherwydd mae'n aros i'r maint y caiff ei osod iddo. Defnyddir cwmpas bwa i luniadu cylchoedd yn fanwl gywir. Bydd set dda safonol yn para am oes i chi.




Defnyddir **onglydd** i fesur onglau. Darn o blastig hanner cylch yw onglydd gyda 180 gradd wedi'i argraffu o'i gwmpas. Fe'i defnyddir i luniadu onglau manwl gywir.

Defnyddir **sgwaryn T** i luniadu llinellau llorweddol pan gaiff ei ddefnyddio gyda bwrdd lluniadu. Fe'i defnyddir i lunio lluniadau orthograffig manwl gywir. Mae hwn wedi'i osod ar rai byrddau lluniadu fel mecanwaith mudiant paralel.




Defnyddir sgwaryn i lunio onglau manwl gywir. Y mwyaf cyffredin yw 45 a 30/60 gradd. Dylid wastad defnyddio sgwaryn T wrth ddefnyddio sgwaryn. Mae'r sgwaryn yn gorwedd ar ymyl syth y sgwaryn T sy'n sicrhau bod yr ongl yn cael ei lluniadu yn fanwl gywir. Defnyddir sgwaryn 30/60 gradd i lunio dyluniadau Isometrig. Defnyddir sgwaryn 45 gradd i lunio arosgo.


Sgwâr addasadwy yw sgwaryn y gellir ei addasu i bron unrhyw ongl. I'w addasu, mae sgrif fach yn cael ei thynhau â llaw, sy'n cloi'r sgwaryn i'w le. Golyga hyn nad oes angen cael sgwaryn 45 gradd a sgwaryn 30/60 gradd. Maent lawer drytach na sgwaryn arferol.



Pren mesur o bosib yw un o'r darnau pwysicaf o safbwynt cyfarpar lluniadu. Dylid defnyddio pren mesur i fesur dimensiynau mewn milimetrau (mm). Gellir ei siapio i atal inc rhag rhedeg wrth ddefnyddio pennau lluniadu.




Defnyddir **clipiau bwrdd** i ddal eich papur yn y lle iawn ar y bwrdd lluniadu. Maent yn clipio ar y bwrdd i ddal y papur yn gadarn yn ei le. Fel arall, gellid defnyddio tâp masgio.




Defnyddir **pennau llinell fain du** i luniadu llinellau manwl gywir parhaol. Mae pennau llinell fain ar gael gyda'r 'blaen' yn amrywio o ran trwch. Fe'u defnyddir i wneud dyluniadau orthograffig. Defnyddir y pennau mwy trwchus i roi amlinelliad trymach (0.7). Mae llinellau mewnol yn deneuach (0.5) ac mae manylion cudd a dimensiynau hyd yn oed yn deneuach eto (0.3). Fe'u defnyddir hefyd i argraffu nodiadau wrth ochr eich brasluniau.

Mae **templedi cylch** yn ddefnyddiol iawn. Plastig ydynt gyda nifer o gylchoedd manwl gywir wedi'u torri allan a marciau i ddangos llinell ganol pob cylch. Fe'u defnyddir i lunio cylchoedd gyda diamedr neilltuol ac maent yn arbennig o ddefnyddiol os yw'r cylch yn fach iawn.

CIRCLE TEMPLATE



ELLIPSE TEMPLATE



Mae **templedi elips** yn debyg iawn i dempledi cylch ac mae'r rhain yn ddefnyddiol iawn i luniadu siapiau elips (hirgrwn) yn fanwl gywir.



Mae **miniwr** yn hanfodol ar gyfer minio pensiliau. Ni ellir gwneud lluniadau manwl gywir oni bai eu bod yn finiog. Ond, mae'n well defnyddio pensil heb fin wrth wneud cysgodion.



Prynir **Templed Tro** fesul tri neu bedwar. Fe'u defnyddir i lunio cromliniau drwy ddod o hyd i'r rhan o'r gromlin sy'n cyd-fynd â'r siâp dymunol ar broffil y gromlin. Mae gan rai templedi tro hefyd naill ai gylch neu elips o amrywiol feintiau wedi'u torri allan. Gellir defnyddio'r rhain yn yr un modd â thempledi cylch neu elips.

Defnyddir **Flexicurve** i wneud cromliniau. Gellir ei ffurfio bron i unrhyw gromlin oherwydd ei fod yn hyblyg. Mae *Flexicurve* yn ddefnyddiol oherwydd caiff ei siapio i ffurfio'r gromlin sydd ei hangen. Mae'n ddefnyddiol wrth lunio elips neu wrth gysylltu pwyntiau loci.



Bwrdd Lluniadu Mudiant Paralel.



Gall fod yn anodd lluniadu gan ddefnyddio bwrdd lluniadu, ac mae angen ymarfer.

Heddiw, rydym ni'n defnyddio **meddalwedd CAD** i'n helpu ni i wneud llawer o waith lluniadu yn hytrach na defnyddio bwrdd lluniadu.

